Pryd o Dafod

Dyma'r gornel ble mae'r Gymdeithas am glywed eich llais *chi*.

Cynnig Gweithredol yn Gymraeg

Blwyddyn diwethaf cafodd ffrind i mi – nofelydd a bardd enwog yng Nghymru – strôc a amharodd ar ei leferydd.

Ar ôl cael adferiad, roedd mewn cartref gofal; fe oedd yr unig siaradwr Cymraeg ymysg y preswylwyr a'r tîm gofal.

Mae o'n nodweddiadol fod rhai mathau o strôc, er enghraifft Afasia Broca, yn achosi i'ch mamiaith ddod fel eich iaith ddiofyn dros eich ail iaith.

Yn 2016 cyflwynodd Arolygaeth Gofal Cymru (CIW) fframwaith strategol *'Mwy na Geiriau'* a osododd gynllun gweithredu dros ddarpariaeth i breswylwyr amgylchedd sydd yn cysidro eu anghenion yn yr iaith Gymraeg. Hwn i gynnwys gweithgareddau ac arwyddion.

Heb orfod gofyn.

Mae'n rhaid i arolygwyr roi sylw i'r agwedd hon yn y maes gofal.

Ond nid oedd profiad fy ffrind llenyddol yn cyrraedd y disgwyliadau er gwaethaf iddo chwilio geiriau Cymraeg yn llawer gwell na'r Saesneg. Mae'n peri pryder i mi.

Gwen Williams

Cludiant am ddim i ysgolion cyfun Cymraeg

Wrth i addysg Gymraeg dyfu yng Nghymru, un mater sy'n codi dro ar ôl tro yw'r anghydraddoldeb o ran cludiant i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Er bod ysgolion Cymraeg yn rhan greiddiol o strategaeth genedlaethol i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050, mae mynediad atynt yn dal i ddibynnu ar gôd post – nid ar hawl. Mewn rhai siroedd, mae disgyblion Cymraeg Blwyddyn 7-13 yn teithio am ddim; mewn eraill, gall costau godi i dros £400 y flwyddyn. Mae'r gwahaniaethau hyn yn creu rhwystrau gwirioneddol i deuluoedd ac yn tanseilio egwyddor sylfaenol: na ddylai cost y daith rwystro unrhyw blentyn rhag cael addysg Gymraeg.

Mae ysgolion Cymraeg fel arfer yn gwasanaethu ardaloedd daearyddol eang, ac mae teithio yn rhan annatod o'u model. Pan fo rhai teuluoedd yn cael cludiant am ddim a rhai eraill yn talu'n sylweddol, nid yw'r system yn gyfartal. Mewn sawl achos, gall costau teithio wneud i rieni ailfeddwl eu dewis o addysg Gymraeg – gyda goblygiadau tymor hir i dwf y sector. Ni allwn hyrwyddo dwyieithrwydd cenedlaethol tra bod mynediad i'r llwybr Cymraeg yn dibynnu ar allu i dalu.

Fel Cymdeithas yr Iaith, ein cred yw bod cludiant ysgol yn rhan o'r hawl i addysg Gymraeg. Dyna pam ein galwad yw hon: rhaid darparu cludiant am ddim i bob disgybl sy'n mynychu ysgolion cyfun Cymraeg, o Flwyddyn 7 hyd at Flwyddyn 13, ym mhob rhan o Gymru. Mae hyn yn fwy na mater cludiant. Mae'n ymwneud â sicrhau cyfle cyfartal i bob person ifanc, dileu rhwystrau economaidd i deuluoedd, a chryfhau'r llwybr addysg Gymraeg fel colofn o bolisi iaith cenedlaethol.

Mae darparu cludiant am ddim i ysgolion Cymraeg yn fuddsoddiad sy'n cefnogi teuluoedd ar draws ardaloedd gwledig a threfol, yn ehangu cyfleoedd ieithyddol, cymdeithasol ac economaidd i bobl ifanc, yn cyfrannu at nod cenedlaethol Cymru i feithrin miliwn o siaradwyr, ac yn creu gwasanaeth cyhoeddus teg a chydradd heb rwystrau ariannol na daearyddol. Os ydym o ddifrif am sicrhau dyfodol llwyddiannus i'r Gymraeg, rhaid i fynediad at addysg Gymraeg fod yn gadarn, teg ac unffurf. Mae darparu cludiant am ddim o Flwyddyn 7 i 13 yn gam syml, synhwyrol ac angenrheidiol i greu Cymru lle gall pob plentyn gael yr un cyfle – beth bynnag fo'u côd post.

Aled Thomas



Cartŵn: **Osian Grifford**